# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 8 Mehefin 2018 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 8 Mehefin 2018 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 15 Mehefin 2018 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,
Arweinydd y Cyngor

**PWNC**

**Llywodraeth Cymru - Dogfen Ymgynghorol Papur Gwyrdd "Cryfhau Llywodraeth Leol : Cyflawni dros ein Pobl."**

**PENDERFYNIAD –**
Cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad uchod ar ran y Cyngor

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr adroddiad atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,<br>Arweinydd Cyngor Gwynedd |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 7-4-18 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :** Llywodraeth Cymru - Dogfen Ymgynghorol Papur Gwyrdd **"Cryfhau Llywodraeth Leol : Cyflawni dros ein Pobl."**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad uchod ar ran y Cyngor

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur ymgynghorol yn dwyn y teitl "Cryfhau Llywodraeth Leol : Cyflawni dros ein pobl" sy'n bapur ymgynghori ar yr opsiynau i greu awdurdodau lleol cryfach a mwy pwerus drwy eu dwyn ynghyd i greu awdurdodau newydd.

Mae'r papur yn gosod allan yr achos dros newid ac yna o dan y pennawd "Opsiynau ar gyfer cryfhau llywodraeth leol" , mae'n nodi mai dim ond un opsiwn credadwy sydd yna i wneud hynny sef uno awdurdodau, ac mae'r papur yn ymgynghori mewn gwirionedd ar 3 opsiwn ar gyfer cyflawni hynny.

Gellir gweld y papur gwyrdd yn llawn drwy ddilyn y linc isod.

https://beta.llyw.cymru/cryfhau-llywodraeth-leol-cyflawni-dros-ein-pobl

Gofynnir am ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn 12 Mehefin.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor llawn ar y 3ydd o Fai, 2018 yn amlinellu cefndir y papur gwyrdd ynghyd â chyflwyno egwyddorion i'w trafod er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae ymateb llawn y Cyngor wedi ei atodi. Mae'n seiliedig ar y trafodaethau a fu yng nghyfarfod y Cyngor. Gyda goblygiadau sylweddol posib i Awdurdodau Lleol, mae'n allweddol bwysig ein bod yn cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar ran Cyngor Gwynedd.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid – Mae'r mater yma eisoes wedi derbyn ystyriaeth gynhwysfawr gan y Cyngor llawn. Nid oes gennyf sylwadau pellach i'w hychwanegu.

Swyddog Monitro – Fe fabwysiadwyd yr egwyddorion sydd yn sail i baratoi'r ymateb yma gan y Cyngor Llawn. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Annex C: Cwestiynau Ymgynghori

| | |
|---|---|
| Enw | Dilwyn O Williams, Prif Weithredwr |
| Sefydliad (os yw yn berthnosal) | Cyngor Gwynedd |
| E-bost / Rhif Ffon | Dilwynwilliams@gwynedd.llyw.cymru |
| Eich Cyfeiriad | Cyngor Gwynedd, Pencadlys, Caernarfon, Gwynedd |

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yn y ddogfen ymgynghori yn esbonio sut byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth.

**Pennod 3**

Cwestiwn Ymgynghori 1

Ym mhennod 2, dywedom unwaith eto ein bod wedi ymrwymo i weithio'n rhanbarthol mewn meysydd allweddol, gan gydnabod hefyd fod angen gwneud newidiadau pellach i gefnogi hyn. Ym mhennod 3, rydym yn cyflwyno'r opsiynau cyffredinol ar gyfer symud tuag at lai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint, ac rydym yn crynhoi nodweddion y broses a fyddai'n gyffredin i bob opsiwn.

a) Pa gamau ymarferol allai Llywodraeth Cymru eu cymryd i wneud y trefniadau gweithio'n rhanbarthol presennol yn haws ac yn fwy effeithiol, er enghraifft mewn perthynas â'r consortia addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r Dinas-ranbarthau a'r Bargeinion Dinas a Thwf?

Ym marn y Cyngor yma mae yna un cam ymarferol y gallasai'r LLywodraeth ei gymryd fyddai'n gwneud i drefniadau cydweithio fod yn well boed yn ranbarthol neu beidio.

Ym marn y Cyngor yma mae angen i Lywodraeth Cymru symud i ffwrdd oddi wrth y tueddiad parhaus i fanylu ymhle a sut y dylai awdurdodau lleol gydweithio. Tydi'r hyn sy'n gwneud synnwyr o gwmpas ardal Bae Caerdydd, lle efallai y mae natur cymunedau yn lled debyg, ddim o reidrwydd yn gwneud synnwyr mewn ardal fel Gogledd Cymru sydd â chymunedau gyda nodweddion pur annhebyg i'w gilydd.

Fel y mae awdurdodau'r Gogledd wedi bod yn nodi ar hyd y daith, mae profiadau'r Gogledd dros y blynyddoedd diwethaf yn dangos fod y canlyniadau gorau i drigolion yn deillio wrth i awdurdodau eu hunain benderfynu lle byddai'r budd mwyaf yn deillio; sut i weud hynny, a thrwy hynny yn perchnogi'r cydweithio hwnnw.

Mae'r enghreifftiau gwaethaf yn deillio o sefyllfaoedd lle mae'r Llywodraeth wedi penderfynu ar bethau o Gaerdydd ar sail y bydd un ffurf yn siwtio pawb. Wrth wneud hynny fe welwyd achosion lle nad yw'r trefniadau mor llyfn ag y dylent fod ac mae'n arwain at ddryswch wrth i awdurdodau geisio gweithio o gwmpas trefniadau sydd ddim yn effeithiol nag yn effeithlon.

Mae'r maes consortia addysg a gofal cymdeithasol yn enghreifftiau gwych lle mae "prescripsiwn" y llywodraeth yn arwain at ddryswch gyda staff rheng

flaen yn cael eu clymu mewn aneglurder a gwyro ymdrechion o'r rheng flaen i gyfarfodydd cydgordio di-bendraw.

Mae yna berygl hefyd bellach fod y trefniadau yma yn gwanio atebolrwydd a democratiaeth leol – rhywbeth sydd i weld yn mynd ar goll wrth ddilyn trywydd dogmataidd trefniadau cydweithio'r Llywodraeth.

Mae'r hyn sydd wedi digwydd gyda'r Cynllun Twf yng Ngogledd Cymru yn wers o ran sut y mae'r awdurdodau yn y Gogledd yn gallu dod at ei gilydd i greu budd ehangach i drigolion, gan wneud hynny yn wirfoddol oherwydd fod yna fudd gwirioneddol am godi.

Mae yna enghreifftiau eraill llai fel y cydweithio e.e ym maes Gwastraff, y cydweithio ym maes cefnffyrdd a Chynllunio Argyfwng, sydd wedi bod yn lwyddiant oherwydd mai awurdodau lleol wnaeth adnabod y cyfle a'i brofi cyn cychwyn, yn hytrach na'i wneud ar sail dogma gwleidyddol.

Rydym yn cytuno gyda'r hyn a ddywedodd Comisiwn Williams, sef y dylid gwneud defnydd gwell a mwy dewisol o gydweithio ac mai'r allwedd i hynny yw gadael i Lywodraeth Leol ei hun benderfynu a yw o fudd neu beidio.

Mae angen symleiddio'r darlun cydweithio rhanbarthol cymhleth sydd wedi datbygu yn sgil cyfarwyddiadau gwahanol adrannau'r Llywodraeth sydd yn arwain at aneffeithlonrwydd ac aneffeithiolrwydd, ac mae angen gwneud llinellau atebolrwydd yn fwy eglur.

'Rydym o'r farn mai'r hyn ddylai arwain unrhyw drafodaeth ar gydweithio yw a oes yna fudd am ddeillio i bobl Gwynedd o ran gwella ein gallu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, neu i wneud hynny'n fwy effeithlon. Dylid pwyso a mesur hynny wedyn yn erbyn yr effaith ar atebolrwydd lleol. Ni ellir gwneud hynny o Gaerdydd.

b) Beth yw eich barn chi am yr elfennau cyffredin i'r prosesau uno yr ydym yn eu cyflwyno yn yr adran hon?

Nid ydym yn gallu cytuno gyda'r hyn sydd wedi ei osod allan yn y papur gwyrdd gan nad ydym o'r farn fod yna ddigon o waith ymchwil wedi ei wneud hyd yma i ystyried a oes yna achos go iawn dros newid.

Fel egwyddor sylfaenol cred y Cyngor hwn yw y dylai gwasanaethau gael eu cyflawni ar y lefel mwyaf lleol posibl.

Fe hoffem weld patrwm o wasanaethau cyhoeddus i'r dyfodol sy'n cynnwys rol ystyrlon i gynghorau tref a chymuned o ran bod yn gyfrifol am, a darparu rhai gwasanaethau.

Gan dderbyn wedyn fod yna rai swyddogaethau sydd angen cael eu cyflawni gan gynghorau mwy, mae angen taro balans rhwng maint priodol ar gyfer y cynghorau hynny a chadw cysylltiad gyda'r cymunedau a wasanaethir,a hynny er mwyn gwarchod atebolrwydd a democratiaeth lleol.

Yn ein barn ni felly mae angen cynnal darn o waith cynhwysol er mwyn ysgogi sgwrs genedlaethol ar beth ddylai gael ei wneud ar ba lefel o lywodraeth (boed gan Gynghorau Cymuned, Cynghorau Sir neu Llywodraeth Cymru) a hynny er mwyn gallu gwireddu'r hyn a nodir yng nghymal 6.13 y papur gwyrdd - sef bod mewn sefyllfa i osgoi cael dwy haen o lywodraeth yn ceisio gwneud yr un gwaith. Mae angen i ni fod llawer cliriach ynglyn a'r ffiniau rhwng rolau llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru, ymhle mae'r atebolrwydd yn gorwedd a pharchu hynny.

c) Beth yw eich barn chi am yr opsiynau a gyflwynwyd gennym ar gyfer creu llai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint?

Yn gyntaf oll 'rydym o'r farn nad maint sydd o anghenraid yn dylanwadu ar allu Cyngor i gyflawni i'w drigolion. Byddem yn dadlau'n gryf mai arweinyddiaeth fyddai'r ffactor mwyaf dylanwadol.

Nid ydym yn credu fod y papur gwyrdd yn rhoi digon o ystyriaeth i'r oblygiadau ar gyfer atebolrwydd lleol yn eu cynigion, ac yn cael ei ddallu gormod gan rhyw syniad fod y cynigion am ddod ag achubiaeth ariannol i lywodraeth leol neu elfen o farn dogmataidd fod mawr o reidrwydd yn beth da.

Nid oes ond angen edrych ar brofiadau yr Awdurdod Iechyd yn y Gogledd i weld fod hynny yn ragdybiaeth sigledig a pheryglus.

Rydym o'r farn fod maint y Cyngor Gwynedd presennol yn briodol o ystyried yr heriau a nodwyd gan Gomisiwn Williams ac yn y papur gwyrdd, a dengys ein profiadau yn y gorffennol ein bod yn gallu cwrdd a'r sialensau a wynebwyd gan gynnal ansawdd gwasanaethau sylfaenol er gwethaf y cynni ariannol sylweddol.

Byddem yn derbyn fod hynny yn dechrau cyrraedd pwynt lle nad yw'n gynaliadwy, ond, oni bai fod ad-drefnu am ryddhau symiau ariannol sylweddol, nid yw ad-drefnu am gynnig ateb i hynny. Atal y cyfyngiadau ariannol ar awdurdodau lleol sydd am wneud hynny.

Fodd bynnag gan mai prif bwrpas y Cyngor yw gwarchod buddiannau ein trigolion, a'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer, nid ydym am gau'r drws ar unrhyw bosibilrwydd all arwain at arbedion mewn costau rheolaethol, canolog

neu swyddfa gefn a fyddai yn ei dro yn medru lleihau maint y toriadau y bydd yn rhaid i'r cyngor eu gwneud dros y blynyddoedd nesaf.

Wedi dweud hynny nid yw'r achos ariannol wedi ei phrofi a byddai angen cryn dipyn o waith i ystyried a yw'r achos honno yn bodoli.

Roedd amcangyfrifon Comisiwn Williams yn bell ohoni ac yn seiliedig ar dybiaethau sigledig dros ben.Mae darnau o waith a wnaed ers hynny wedi dangos bod yna dueddiad i or-ddatgan yn sylweddol yr arbedion posibl a than ystyried cost unrhyw ad-drefnu boed yn ariannol neu yn ymdrech ychwanegol fydd ei angen i gydgordio gweithgareddau corff mwy.

Fe ddylai unrhyw benderfyniad ar ad-drefnu falansio'r budd ariannol (os oes yna un) yn erbyn unrhyw effaith ar atebolrwydd lleol.

d) A oes unrhyw opsiynau eraill y dylem eu hystyried ar gyfer creu llai o awdurdodau, sy'n fwy o faint?

Gweler c uchod

e) A oes gennych dystiolaeth ynglŷn â chost, manteision ac arbedion pob opsiwn a allai helpu i lywio'r penderfyniad? Os oes, rhowch fanylion.

Nagoes. Fel y nodir uchod nid ydym yn credu fod unrhyw achos ariannol wedi ei sefydlu na'i herio ac yn sicr ni ddylid dibynnu ar y datganiadau yn adroddiad Comisiwn Williams, gan fod y tybiaethau ariannol yn yr adroddiad hwnnw yn sigledig a dweud y lleiaf.

Fe wnaed ymdrech yng Ngogledd Cymru rhai blynyddoedd yn ôl gyda chymorth ymgynghorwyr allanol i weld a oedd yna achos dros gydweithio mewn meysydd cefnogaeth ganlog ond canlyniad y gwaith eang a wnaed oedd fod y gost am fod lawer uwch na'r arbediad blynyddol posibl, sy'n codi cwestiynau sylfaenol am yr holl dybiaeth.

Mae angen seilio polisi ar ffigyrau a ffeithiau go iawn - nid datganiadau sydd i weld yn dod yn ffeithiau oherwydd eu bod yn cael eu dweud ddigon aml.

**Pennod 4**

Cwestiwn Ymgynghori 2

Mae pennod 4 wedi egluro'r angen am eglurder ar y patrwm ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol a'r ystod o ffactorau y dylid ei hystyried wrth benderfynu ar ffurf newydd. Mae'n cynnig patrwm posibl ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol, y gellid ei gyflawni drwy bob un o'r opsiynau a drafodwyd yn y bennod flaenorol.

a) Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig rhoi eglurder ynghylch y patrwm ar gyfer llywodraeth leol y dyfodol?

Gweler yr ateb yn 1 b ac c uchod.

b) Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau a nodwyd gennym i lywio ein syniadau? A fyddech chi'n ychwanegu ffactorau eraill neu'n newid unrhyw ffactor?

Gweler yr ateb yn 1c ac yn arbennig y pwynt ynglyn ag atebolrwydd lleol.

c) Beth yw eich barn chi am yr ardaloedd newydd a awgrymir yn yr adran hon

-

d) A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ac, os felly, pa wybodaeth sydd gennych i gefnogi'r rhain fel dewis arall?

-

e) Oes yna unrhyw ddulliau eraill y dylem eu defnyddio i symleiddio trefniadau cydweithio ar lefel ranbarthol a rhwng cyrff cyhoeddus â'i gilydd yn yr ardaloedd awdurdod newydd? Os oes, beth ydyn nhw?

Gweler yr ateb i gwestiwn 1a

**Pennod 5**

Cwestiwn Ymgynghori 3

Mae'r pennod hon yn trafod y dull arfaethedig ar gyfer trawsnewid a'r goblygiadau ar gyfer sefydlu Pwyllgorau Pontio ac etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol o dan bob opsiwn.

a) Ydych chi'n cytuno â'r broses bontio arfaethedig: sef sefydlu Pwyllgorau Pontio a sicrhau bod etholiadau i Awdurdodau Cysgodol yn gallu cael eu cynnal cyn y diwrnod breinio ar gyfer yr awdurdodau newydd?

b) Ydych chi'n cytuno, pe byddai opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, y dylem bennu dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol ym mhob cylch etholiadol?

| |
|---|
| |
| c) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y map arfaethedig? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 4<br>Mae'r ymgynghoriad yn awgrymu cynnal unrhyw etholiadau llywodraeth leol ym mis Mehefin 2021.<br><br>A oes unrhyw reswm pam na fyddai mis Mehefin 2021 yn ddyddiad addas? Os felly, awgrymwch ddyddiad arall gan nodi'r rhesymau pam y byddai'r dyddiad hwnnw yn fwy addas.. |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 5<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai cynlluniau neu asesiadau sy'n gysylltiedig â chylchoedd etholiadol, er enghraifft asesiadau llesiant a baratoir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn gwneud darpariaeth i sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd ag unrhyw gylchoedd etholiadol newydd yn y dyfodol. A oes unrhyw gynlluniau neu faterion eraill a allai fod ynghlwm wrth y cylch etholiadol y mae angen inni eu hystyried? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 6<br>Beth yw eich barn am y dull y dylid ei ddilyn i benderfynu ar derfynau'r adolygiadau etholiadol? |
| |

| **Pennod 6** |
|---|
| Cwestiwn Ymgynghori 7 |
| a) Sut gall cynghorau ddefnyddio gwybodaeth eu haelodau etholedig am eu cymunedau, a'u cysylltiadau ynddynt, yn fwy effeithiol? |
| Mewn unrhyw ail ddylunio mae angen sicrwydd na fydd unrhyw gynigion yn creu wardiau rhy fawr a fydd yn gwneud gwaith aelodau etholedig o ymgysylltu'n effeithiol gyda'u hetholwyr a'u cymunedau yn fwy anodd.<br><br>Yn benodol, mae angen sicrwydd na cheir mwy o wardiau aml-aelod, gan fod darpariaeth felly yn medru drysu atebolrwydd aelodau unigol o fewn eu hetholaethau. |

| |
|---|
| b) Sut y gallwn gydnabod yn well lefel y cyfrifoldeb o fod yn gynghorydd lleol? Pa newidiadau i'r gydnabyddiaeth ariannol a'r gefnogaeth mae cynghorwyr yn eu cael fyddai'n galluogi ystod ehangach o bobl i fod yn rhan o'r gynrychiolaeth ddemocrataidd leol? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 8 |
| a) A oes unrhyw bwerau eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw? |
| |
| b) A oes rhyddid neu hyblygrwydd eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 9 |
| a) Pa feysydd sy'n cynnig y cwmpas mwyaf i rannu gwasanaethau trafodiadol? |
| |
| b) Beth yw'r ffordd orau o ddatblygu trefniadau o'r fath? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 10 |
| a) Er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu dull cyson ar draws Cymru, lle bo cysondeb yn bwysig, sut ydych chi'n meddwl fyddai orau i ddarparu'r cyngor a'r cymorth ar y materion hyn? |
| |
| b) Oes unrhyw heriau neu gyfleoedd eraill yn deillio o newid strwythurol neu ddarparu pwerau a hyblygrwydd eraill nad ydynt wedi eu nodi uchod? Os oes angen cymorth ar y meysydd hyn, ym mha ffordd y dylid rhoi'r cymorth hwnnw? |
| |
| c) Pa un o'r materion a nodwyd uchod neu yn eich ymateb ddylai gael blaenoriaeth i'w ddatrys yn gynnar? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 11.<br>Hoffem wybod eich barn am ba effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith ac o ran peidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

| |
|---|
| a) Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? |
| |
| b) Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 12<br>Eglurwch hefyd sut y credwch y byddai modd ffurfio neu newid (os bydd angen) y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn arwain at effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwyn peidio â chael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 13<br>Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru am effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw. |
| a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol sydd heb eu nodi yn yr asesiad? |
| |
| b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 14<br>Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn rhoi braslun o farn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar grwpiau sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw. |
| a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad? |
| |

| |
|---|
| b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 15<br>Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar gynnwys yr ymgynghoriad hwn. |
| |